Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 26 Mehefin 2013**

Amser:
**10:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**
Clerc y Pwyllgor
02920898409
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitemau 3, 4, 5 a 9

**Sesiwn breifat**

### 3 Goblygiadau ariannol Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - Trafod yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (10:00 - 10:10) (Tudalennau 1 - 3)

FIN(4)-11-13 Papur 1

### 4 Y dull o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 (10:10 - 10:40) (Tudalennau 4 - 20)

FIN(4)-11-13 Papur 2

### 5 Blaenraglen Waith (10:40 - 11:00) (Tudalennau 21 - 22)

FIN(4)-11-13 Papur 3

**Sesiwn gyhoeddus**

### 6 Papurau i'w nodi (Tudalennau 23 - 25)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin.

## 7 Ymchwiliad i Ardaloedd Menter yng Nghymru - Adborth ar ymweliadau'r Pwyllgor ag Ardaloedd Menter Ynys Môn a Dyfrffordd y Daugleddau (11:00 - 11:30)

## 8 Ymchwiliad i Ardaloedd Menter yng Nghymru - Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (11:30 - 12:00)

(Tudalennau 26 - 29)
FIN(4)-11-13 Papur 4
Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Tracey Burke, Cyfarwyddwr, Strategaeth
Rob Hunter, Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad

**Sesiwn breifat**

## 9 Ystyried y dystiolaeth - Ardaloedd Menter (12:00 - 12:15)

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF-GT-0482-13

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mehefin 2013

Annwyl Jocelyn,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 7 Mai 2013 yn ymwneud ag agweddau ariannol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac yn gofyn am esboniad pellach ar bwyntiau a wnaed yn fy ngohebiaeth flaenorol â chi ac yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ebrill.

O ran yr wybodaeth ariannol a gaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw a phryd, nodais ar 18 Ebrill mai fy mwriad oedd rhoi diweddariad i gefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cyfeiriais hefyd at y gwaith y mae ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei wneud a nodais y byddem yn disgwyl bod â gwell syniad ynglŷn â'r gwaith hwnnw erbyn yr hydref. O ran y manylion a'r amserlen, fy mwriad ar hyn o bryd yw gwneud fel a ganlyn:

1. *Rhoi darlun clir o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu eisoes i Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â bras amcan o'r arian ychwanegol a gaiff ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r pontio i'r Bil. Disgwyliaf i'r wybodaeth hon fod ar gael, yn ogystal â datganiad ysgrifenedig i gyd-fynd â hi, cyn diwedd y tymor hwn.*

Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i atgyfnerthu un o'm negeseuon allweddol ynghylch ariannu'r ddeddfwriaeth hon, sef bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor. Dengys tystiolaeth nad yw'r drefn gyfredol o ddarpariaeth ofal cymdeithasol yng Nghymru yn gynaliadwy bellach. Ymateb i hynny yw'r Bil hwn, a'i nod yw creu fframwaith cadarnach ar gyfer gofal a chymorth a fydd yn para am genhedlaeth. Mae'n dilyn felly ei bod yn holl bwysig yn ariannol i'r Bil fod yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor. Nid oes rhagor o arian, ac nid oes modd yn y byd inni ddisodli'r fframwaith presennol ag un sy'n costio rhagor. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol feddwl mewn ffordd wahanol ynglŷn â'r ffyrdd y maent yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau, gan y bydd angen ailgyfeirio'r cyllid presennol i feysydd newydd. Bydd hyn yn cynnwys alinio'r cyllid presennol â dyletswyddau newydd ac â blaenoriaethau a nodir yn y Bil, fel hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol. Bydd rhoi darlun clir o'r cyllid sydd eisoes ar gael yn helpu Aelodau'r Cynulliad i ddeall pa adnoddau sydd gan Awdurdodau Lleol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)   Printed on 100% recycled paper*

chyrff cyhoeddus eraill i'w defnyddio i gyflawni'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gofyn amdano.

Gwneir ymrwymiad ym mharagraff 144 o'r Memorandwm Esboniadol ac ynddo rwyf wedi cydnabod y bydd rhai costau untro cychwynnol yn ymwneud â rhoi'r system newydd ar waith. Rwyf eisoes wedi egluro, er enghraifft, y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyllid pontio tuag at gostau darparu gwybodaeth ynglŷn â'r newidiadau y bydd y Bil yn eu creu. Ystyriwyd costau hyfforddi hefyd ac eisoes darperir cyllid grant sylweddol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ar gyfer datblygu'r gweithlu. Bydd egluro ein syniadau diweddaraf yn y maes hwn yn rhoi'r darlun cliriaf sy'n bosibl i Aelodau'r Cynulliad o'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig ar gyfer pontio i'r Bil.

2. *Rhoi gwybodaeth bellach i gefnogi'r honiadau a wneir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y meysydd hynny lle na roddwyd awgrym o raddfa'r budd posibl. Darperir yr wybodaeth hon ar ddiwedd cam 2 (mis Hydref).*

Rwy'n dal yn hyderus y bydd y budd a ddaw o symud tuag at fwy o integreiddio, atal ac ymyriadau cynnar yn sylweddol dros yr hirdymor, ac y bydd hefyd yn gwella'r gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru. Mae creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn enghraifft o sut y gallwn sicrhau arbedion o ran costau, yn ogystal â gwelliannau. Ar y dechrau, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dryloyw iawn wrth ddatgan y câi budd ei ragweld yn y meysydd hyn ond y byddai angen ei asesu'n fanylach pan gâi Rheoliadau eu datblygu fel rhan o'n gwaith. Felly y mae o hyd, ond rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i dystiolaeth bellach o fannau eraill sy'n cefnogi'r honiadau hyn. Mae sicrhau'r budd sy'n deillio o'r drefn newydd yn allweddol i wneud y ddeddfwriaeth yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor, ac felly bydd sicrhau rhagor o wybodaeth yma yn rhoi hyder pellach i'r Pwyllgor ac i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â phwnc y craffwyd cryn dipyn arno hyd yma.

Bydd yr wybodaeth ychwanegol yn ategu, yn hytrach nag yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd eisoes yn bodoli.

3. *Darparu rhagor o fanylon am y bwriad polisi y tu ôl i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo trafodaethau gydag ADSS Cymru a CLILC ynghylch modelu ariannol ar gyfer agweddau gweithredol ar y Bil. Cytunir ar fwriad polisi ar gyfer y prif Reoliadau erbyn diwedd y flwyddyn galendr a rhoddir gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor ar sail ryngweithiol cyn y bleidlais Cam 4 ar y Bil ar 26 Tachwedd.*

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ebrill ac mewn ymateb i gwestiwn gan Kirsty Williams AC, ymrwymais i roi manylion pellach am y prif Reoliadau wrth iddynt ddatblygu fel bod y Pwyllgor ac Aelodau'r Cynulliad yn y sefyllfa orau i bleidleisio ar y Bil. Dechreuais wneud hynny drwy roi manylion ychwanegol ynglŷn â phrosesau craidd sy'n sail i'r Bil (gan gynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, Asesu, Cymhwysedd, Cynlluniau Gofal a Hygludedd) pan ysgrifennais at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwethaf ar 20 Mai.


Mae'n bwysig yn y man hwn sylweddoli beth yw'r cysylltiadau rhwng y bwriad polisi hwn sy'n datblygu a goblygiadau gweithredol y drefn newydd – goblygiadau y mae CLILC ac ADSS Cymru wedi nodi eu bod eisoes yn edrych arnynt gyda golwg ar roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ni ellir creu darlun llawn o gostau a budd o'r fath nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y dewisiadau a wneir o dan y Rheoliadau. Yn hyn o beth byddwch wrth gwrs yn gwybod bod datblygu is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'w broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei hun, proses y datblygir safbwyntiau ar gostau a budd drwyddi. Bydd ymgynghori ffurfiol hefyd ar ddeddfwriaeth o'r fath a bwriedir i hynny ddigwydd yn 2014 os bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Ar 18 Ebrill atgoffais y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'm hymrwymiad parhaus i drafod â rhanddeiliaid gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru, yn bennaf drwy fy Fforwm Partneriaeth a'r Grŵp Arweiniad. Mae CLILC hefyd wedi gwneud datganiad ers hynny yn dweud y byddent yn awyddus i weithio gyda ni ar fodelu ariannol. Yn ôl a ddeallaf, nid yw'r gwaith y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud i ddatblygu costiadau o dan y Bil ar gael eto i'r Pwyllgor ond byddwn yn gobeithio y byddent yn rhannu'r gwaith hwn â mi pan fydd wedi ei gwblhau. Ond fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith, byddwn hefyd yn gobeithio ei fod yn adlewyrchu mewn ffordd gywir a theg nid yn unig gostau'r diwygiadau hyn, ond hefyd y budd a geir ohonynt.

Byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar gynnydd yn y maes hwn cyn diwedd Cam 2.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 12 Mehefin 2013** |
| Amser: | **09:00 - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_12_06_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Lucas Boissevain, Mustang Marine**<br>**Nick Bourne, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau**<br>**Mike Corne, eCube Solutions**<br>**Gareth Jenkins, Ardal Fenter Glynebwy** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Mike Lewis (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Ymchwiliad i Ardaloedd Menter yng Nghymru - Panel o fusnesau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Mike Corne, Partner a Chyfarwyddwr Masnachol yn eCube Solutions, a Lucas Boissevian, Cyfarwyddwr Cyllid yn Mustang Marine.

2.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Bellach ac Uwch - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Carla Lyne, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol Cyllid.

3.2 Ymatebodd y Gweinidog a'r swyddog i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

3.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Nodyn ar y newidiadau y gallai'r Gweinidog eu gwneud i amodau ariannu sefydliadau addysg uwch.
- Canran yr arian i sefydliadau addysg uwch sy'n dod gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Cytunodd y tîm clercio i roi trawsgrifiad o'r sesiwn Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) ar 15 Mai i'r Aelodau.

3.5 Cytunodd y Clerc i ddrafftio llythyr i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn nodi amheuon y Pwyllgor ynghylch 'rheolaethau anneddfwriaethol'.

## 4 Ymchwiliad i Ardaloedd Menter yng Nghymru - Cadeiryddion y Byrddau Ardaloedd Menter

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Nick Bourne, Cadeirydd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, a Gareth Jenkins, Cadeirydd Ardal Fenter Glynebwy.

4.2 Ymatebodd y tystion i'r cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol ar 8 Mai 2013.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitem 7

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Trafod dangosyddion perfformiad allweddol Comisiwn y Cynulliad

7.1 Trafododd y Pwyllgor Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Comisiwn y Cynulliad.

7.2 Cytunodd y Clerc i ddrafftio llythyr i Gomisiwn y Cynulliad yn nodi eu cynnig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gofyn am gymariaethau â’r blynyddoedd/tymhorau blaenorol lle y bo’n gymwys.

# YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYLLID I ARDALOEDD MENTER

# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG ODDI WRTH WEINIDOG YR ECONOMI, GWYDDONIAETH A THRAFNIDIAETH

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i helpu Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru â'i ymchwiliad byr i Ardaloedd Menter yng Nghymru.

1.2 Mae'r papur yn gyflwyniad cyffredinol am Ardaloedd Menter ac yn canolbwyntio'n arbennig ar y materion yn eu Cylch Gorchwyl y tynnodd y Pwyllgor Cyllid sylw atynt fel pwyntiau ddylai fod o ddiddordeb arbennig.

1.3 Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau; y cymhellion ariannol ac anariannol sydd ar gael ac allbynnau a chanlyniadau gwirioneddol a rhagweledig. Wrth gyflwyno'r wybodaeth, mae'r papur yn naratif lefel uchel all helpu'r Pwyllgor i ddeall yn well yr hyn sy'n digwydd yn y saith Ardal Fenter.

## 2. Ardaloedd Menter

2.1 Ym mis Ebrill 2012, cychwynnwyd y pum Ardal Fenter gyntaf. Cychwynnwyd dwy Ardal Fenter arall ym mis Mai 2012.

2.2 Mae'r Ardaloedd Menter wedi'u sefydlu yn yr ardaloedd canlynol, a nodir hefyd y sector y rhoddir pwyslais iddo ym mhob un:

- Ynys Môn – Ynni a'r Amgylchedd.
- Canol Caerdydd – Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol.
- Glannau Dyfrdwy – Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.
- Glyn Ebwy - Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau – Ynni a'r Amgylchedd.
- Eryri – Ynni a'r Amgylchedd a TGCh.
- Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd - Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

2.3 Mae pob Ardal Fenter yn canolbwyntio ar sector allweddol o'r economi. Gydag Ardaloedd Menter sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd o fewn lleoliadau, gweithgareddau a sectorau allweddol, mae'n haws iddynt gyd-fynd yn strategol â'n pwyslais cyffredinol ar sectorau wrth ymdrin â'r economi. Bydd hynny hefyd yn ein helpu i sicrhau bod ein hymyriadau'n esgor ar y buddiannau mwyaf o fewn ffiniau'r Ardaloedd Menter a'r tu allan iddynt.

2.4 Mae gan bob Ardal Fenter fwrdd i roi cyngor ar weledigaeth a blaenoriaethau strategol pob Ardal ar gyfer hybu twf a swyddi.

2.5 Roedd pob un o Fyrddau’r saith Ardal Fenter wedi’u sefydlu erbyn Hydref 2012. Mae swyddogion yn dal i weithio gyda’r Byrddau i ddatblygu ffordd gyson ac effeithiol o farchnata’r Ardaloedd ac i ddatblygu a chynnal eu blaenoriaethau strategol.

## 3. Adnoddau

3.1 Ceir amrywiaeth o wahanol fathau o wariant refeniw a chyfalaf yn yr Ardaloedd Menter ar weithgareddau fel astudiaethau dichonolrwydd, adfer safleoedd a gwaith cyfalaf arall. Mae datganiadau rheolaidd wedi’u gwneud sy’n crynhoi llawer o’r datblygiadau hyn, er enghraifft y Cynllun Ardrethi Busnes, lle bu bron £800,000 o wariant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

3.2 Fodd bynnag, mae Ardaloedd Menter yn golygu mwy na neilltuo rhagor o adnoddau. Maent yn golygu defnyddio adnoddau sy’n bod eisoes gan bob rhan o Lywodraeth Cymru a phartneriaid lleol i greu effeithiau positif o fewn yr Ardaloedd Menter a thu hwnt.

## 4. Amcanion Strategol pob Ardal

4.1 Mae Byrddau’r Ardaloedd Menter wedi paratoi cynlluniau strategol. Mae’r cynlluniau hyn yn disgrifio gweledigaeth a phrif amcanion pob Ardal Fenter. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fel seilwaith (er enghraifft gwella ffyrdd, gwella rheilffyrdd, datblygu safleoedd, buddsoddi mewn adeiladau ac ati), marchnata, ffiniau safleoedd a pholisïau fel y Cynllun Ardrethi Busnes. Mae’r cynigion yn y cynlluniau hyn wedi’u hasesu ac mae opsiynau datblygu penodol wrthi’n cael eu datblygu.

## 5. Cymhellion mewn Ardaloedd Menter

5.1 Mae Ardaloedd Menter yn cynnwys ymyriadau a chymhellion ariannol ac anariannol i greu effeithiau positif yn y tymor byr, canolig a hir.

5.2 Mae amrywiaeth o gymhellion cystadleuol i fusnesau hen a newydd ar gael ledled Cymru. Eu nod yw creu effeithiau positif yn y tymor byr, canolig a hir. Maent yn cynnwys ymyriadau i ddatblygu’r economi fel help i fewnfuddsoddwyr, help i gael at gyllid, cyngor ar fasnachu dramor a mathau eraill o help i fusnesau.

5.3 Cynigir cymhellion ychwanegol mewn Ardaloedd Menter fel cyflwyno Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn yr Ardaloedd Menter, Cynllun Ardrethi Busnes y cyfeiriwyd ato eisoes a’r Lwfansau Cyfalaf Uwch sy’n cael eu cynnig ar safleoedd penodol yn rhagor na hanner yr Ardaloedd Menter cymwys – Glannau Dyfrdwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glyn Ebwy. Mae mapiau’r Lwfansau wedi’u cyhoeddi.

## 6. Allbynnau a Chanlyniadau

6.1 Y gobaith tymor hir yw y gwnaiff yr Ardaloedd Menter sbarduno'r economi leol i dyfu a chreu a diogelu swyddi; bod yn gatalydd twf i rannau eraill y wlad; gwneud yr Ardaloedd Menter a Chymru'n fwy deniadol yn gyffredinol i fuddsoddwyr; a gwneud economi Cymru'n fwy cystadleuol.

6.2 Mae cyfleoedd a sialensiau penodol ac unigryw yn wynebu pob Ardal Fenter, gan ddibynnu ar amgylchiadau economaidd, daearyddol a demograffig pob ardal. Yn ystod y deuddeg mis cyntaf, y gwaith mwyaf oedd sefydlu'r Ardaloedd Menter gydag arlwy gystadleuol o gymhellion ariannol ac eraill.

6.3 Mae'n bwysig mesur effeithiolrwydd y cymhellion hyn. Mae angen dull soffistigedig o fesur llwyddiant sy'n cydnabod cymhlethdod her datblygu'r economi. Er enghraifft, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae diogelu swyddi lawn cyn bwysiced â chreu swyddi. Mewn rhai ardaloedd, rhaid cynnal nifer o weithgareddau fel paratoi safleoedd ac eiddo, datrys diffygion yn y seilwaith a gwaith paratoi arall, cyn y gall busnesau hyd yn oed ystyried buddsoddi ynddynt

6.4 Yn ogystal, bydd effeithiau positif y tu hwnt i ffiniau'r Ardaloedd Menter. Mae mesur a chynyddu'r sgil-effeithiau ehangach hyn cyn bwysiced â mesur yr hyn sy'n digwydd o fewn ffiniau'r Ardal.

6.5 Rwy'n bwriadu cyhoeddi dangosyddion cyn diwedd y flwyddyn ac rwy'n gofyn i Fyrddau'r Ardaloedd Menter, yn ogystal ag ACau am eu barn ynghylch pa ddangosyddion y dylem eu mabwysiadu.

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/EH/02248/13

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee

FinanceCommittee@wales.gov.uk

16 July 2013

Dear Jocelyn,

During the evidence session at Finance Committee on 26 June I gave a commitment to provide you with some further information.

First, Professor Dylan Jones-Evans is due submit his second stage report on the availability of financing for SMEs in Wales by mid November.

Second, in terms of supply chain activity, Business Wales supports buyers in the public and private sector to make contracts accessible to companies in Wales and is involved in a number of strategic supply chain projects. Suppliers can access a range of Workshops, Supplier Briefings and Meet the Buyer Events as well as one-to-one support to assist them in developing tender submissions.

There is also a wide range of sector-focussed, supply-chain activity across Wales, which is further developed within our Enterprise Zones. For example, the Anglesey and Snowdonia Enterprise Zones have been showcased by the Energy and Environment Sector to demonstrate the strong skills base and strength in the nuclear energy sub-sector. Officials are working with key stakeholders, including Horizon to develop a pan-Wales supply-chain capability assessment. This will inform support requirements for indigenous businesses and identify opportunities for targeting inward investment.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*